CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Gwener, 9 Rhagfyr 2022 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Llun, 5 Rhagfyr 2022.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir Hinchey (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Ahmed, Dilwar Ali, Ash-Edwards, Berman, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Brown-Reckless, Burke, Carr, Carter, Chowdhury, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ferguson-Thorne, Gibson, Goodway, Green, Gunter, Henshaw, Hopkins, Humphreys, Hunt, Jenkins, Jones, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lancaster, Latif, Lent, Lewis, Lister, Littlechild, Livesy, Lloyd Jones, Mackie, McEvoy, McGarry, Merry, Michael, Molik, Moultrie, Naughton, Owen, Palmer, Jackie Parry, Reid-Jones, Robson, Sangani, Sattar, Shimmin, Simmons, Singh, Stubbs, Huw Thomas, Thomson, Lynda Thorne, Waldron, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

58 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Bridgeman, Lay, Melbourne, Taylor, Robinson

59 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

| CYNGHORYDD | RHIF YR EITEM AGENDA | NATUR Y BUDDIANT |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Mackie | 3 Hysbysiad o Gynnig | Buddiant Personol, Cyfaill Neuadd Dewi Sant. |
| Y Cynghorydd Thomson | 3 Hysbysiad o Gynnig | Buddiant Personol Gwaith prosiect ar gyfer y Coleg Cerdd a Drama Brenhinol. |

C754626

60 : HYSBYSIAD O GYNNIG

Nododd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Shimmin ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Berman wedi'i dderbyn i'w ystyried. Derbyniwyd dau welliant.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Shimmin i wneud cynnig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi gyda phryder mawr pa mor gyflym y gallai'r Cabinet fod yn symud tuag at benderfyniad i newid perchnogaeth a/neu reolaeth Neuadd Dewi Sant y ddinas, a ystyrir gan nifer fel neuadd gyngerdd genedlaethol Cymru, a cyn i unrhyw benderfyniad o'r fath gael ei wneud mae'n galw am:

1) Gyhoeddi achos busnes llawn gan y Cabinet sy'n dangos pam y mae o'r farn y byddai'r cynigion o fudd i gymuned Caerdydd a'r genedl ehangach;
2) y Cabinet i ddangos sut y byddai unrhyw gynnig o'r fath yn cadw treftadaeth ddiwylliannol y ddinas trwy ddarparu'r holl fesurau diogelu angenrheidiol y byddai allbwn diwylliannol a chlasurol presennol y Neuadd yn cael eu cadw ar y lefelau presennol neu'n fwy, y byddai'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer digwyddiadau cymunedol yn cael ei chynnal, ac na fyddai unrhyw newidiadau neu gynigion strwythurol neu gynigion arfaethedig i waredu'r seddi presennol yn effeithio ar acwstigau rhagorol cydnabyddedig y Neuadd.
3) cynnal ymgynghoriad llawn ac ystyrlon gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol ar werth y cynigion, a rhoi ystyriaeth briodol i ganlyniad yr ymgynghoriad hwn; a
4) archwilio'n llawn bob llwybr arall i sicrhau'r cyllid sydd ei angen i gynnal yr adeilad a chlirio'r ôl-groniad cynnal a chadw presennol – gan gynnwys gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth ariannol i sicrhau dyfodol ein Neuadd Gyngerdd Genedlaethol dan berchnogaeth a gweithrediad cyhoeddus.

Os yw'r Cabinet, ar ôl cymryd y camau hyn, yn parhau'n benderfynol i fwrw ymlaen â newid perchnogaeth a/neu reolaeth Neuadd Dewi Sant, yna mae'r Cyngor hwn yn galw am gyflawni hynny drwy broses dendro agored a allai sicrhau y gellir ystyried yr opsiwn gorau sydd ar gael, yn amodol ar fodloni'r mesurau diogelu priodol.

Eiliwyd y cynnig yn ffurfiol gan y Cynghorydd Berman.

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Robson i gynnig y gwelliant cyntaf fel a ganlyn:

Dileu popeth ar ôl y paragraff cyntaf ac ychwanegu'r canlynol:

Mae pob llwybr amgen i sicrhau'r cyllid angenrheidiol i gadw'r adeilad hwn dan berchnogaeth gyhoeddus yn cael eu harchwilio'n llawn ac yn dryloyw - gan gynnwys gofyn yn gyntaf i Lywodraeth Cymru ystyried cymryd perchnogaeth yr adeilad cenedlaethol hwn.

Os yw'r Cabinet, ar ôl cymryd y camau hyn, yn parhau'n benderfynol i fwrw ymlaen â newid perchnogaeth a/neu reolaeth Neuadd Dewi Sant, yna mae'r Cyngor hwn yn galw am gyflawni hynny drwy broses dendro agored i gynnwys;

1) cyhoeddi achos busnes llawn gan y Cabinet, sy'n dangos pam y mae o'r farn y byddai'r cynigion o fudd i gymuned Caerdydd a'r genedl ehangach;

2) y Cabinet yn dangos sut y byddai unrhyw gynnig o'r fath yn diogelu treftadaeth ddiwylliannol y ddinas, drwy ddarparu mesurau diogelu y byddai allbwn diwylliannol a chlasurol a digwyddiadau cymunedol presennol y Neuadd yn cael eu cadw ar y lefelau presennol neu'n fwy, ac na fyddai acwsteg

ardderchog cydnabyddedig y Neuadd yn cael ei effeithio gan unrhyw newidiadau neu gynigion strwythurol arfaethedig i gael gwared ar seddi presennol. Dylid sefydlu cronfa hefyd i gynorthwyo gyda chostau llogi i gefnogi'r digwyddiadau cymunedol parhaus.

3) Cynnal ymgynghoriad llawn ac ystyrlon gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol ar werth y cynigion, a rhoi ystyriaeth briodol i ganlyniad yr ymgynghoriad hwn.

**Byddai'r Cynnig Diwygiedig yn darllen fel a ganlyn:**

Mae'r Cyngor hwn yn nodi gyda phryder mawr pa mor gyflym y gallai'r Cabinet fod yn symud tuag at benderfyniad i newid perchnogaeth a/neu reolaeth Neuadd Dewi Sant y ddinas, a ystyrir gan nifer fel neuadd gyngerdd genedlaethol Cymru, a cyn i unrhyw benderfyniad o'r fath gael ei wneud mae'n galw am:

Mae pob llwybr amgen i sicrhau'r cyllid angenrheidiol i gadw'r adeilad hwn dan berchnogaeth gyhoeddus yn cael eu harchwilio'n llawn ac yn dryloyw - gan gynnwys gofyn yn gyntaf i Lywodraeth Cymru ystyried cymryd perchnogaeth yr adeilad cenedlaethol hwn.

Os yw'r Cabinet, ar ôl cymryd y camau hyn, yn parhau'n benderfynol i fwrw ymlaen â newid perchnogaeth a/neu reolaeth Neuadd Dewi Sant, yna mae'r Cyngor hwn yn galw am gyflawni hynny drwy broses dendro agored i gynnwys;

1) cyhoeddi achos busnes llawn gan y Cabinet, sy'n dangos pam y mae o'r farn y byddai'r cynigion o fudd i gymuned Caerdydd a'r genedl ehangach;

2) y Cabinet yn dangos sut y byddai unrhyw gynnig o'r fath yn diogelu treftadaeth ddiwylliannol y ddinas, drwy ddarparu mesurau diogelu y byddai allbwn diwylliannol a chlasurol a digwyddiadau cymunedol presennol y Neuadd yn cael eu cadw ar y lefelau presennol neu'n fwy, ac na fyddai acwsteg ardderchog cydnabyddedig y Neuadd yn cael ei effeithio gan unrhyw newidiadau neu gynigion strwythurol arfaethedig i gael gwared ar seddi presennol. Dylid sefydlu cronfa hefyd i gynorthwyo gyda chostau llogi i gefnogi'r digwyddiadau cymunedol parhaus.

3) Cynnal ymgynghoriad llawn ac ystyrlon gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol ar werth y cynigion, a rhoi ystyriaeth briodol i ganlyniad yr ymgynghoriad hwn.

Eiliwyd y cynnig yn ffurfiol gan y Cynghorydd Joel Williams.

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Burke-Davies i gynnig yr ail welliant fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi ei bod wedi bod yn bolisi a gadarnhawyd gan y Cyngor ers 2014 i ddilyn trefniadau Darparu Gwasanaethau Amgen ar gyfer Neuadd Dewi Sant, oherwydd pwysau ariannol sy'n deillio o bolisïau llymder y Llywodraeth Glymblaid ar y pryd.

Mae'n nodi ymhellach bod y Cyngor wedi ymgymryd â phroses dendro Deialog Gystadleuol fanwl yn 2016 ar gyfer dull darparu gwasanaethau amgen ar gyfer Neuadd Dewi Sant, ac mae'n nodi'r broses a ddaeth i ben yn aflwyddiannus heb dderbyn unrhyw dendrau a allai ddarparu'r Rhaglen Glasurol a dileu atebolrwydd y Cyngor am yr adeilad.

~~gyda braw o ran y cyflymder y gallai'r Cabinet fod yn symud tuag at benderfyniad i newid perchnogaeth a/neu reolaeth Neuadd Dewi Sant y ddinas, a ystyrir gan lawer fel neuadd gyngerdd genedlaethol Cymru, a chyn gwneud unrhyw benderfyniad o'r fath yn mynnu:~~

Mae'r Cyngor yn galw ar y Cabinet i sicrhau, cyn gwneud y penderfyniad hwn, ei fod yn rhoi ystyriaeth briodol i:

1. cyhoeddi achos busnes ~~llawn~~ ~~gan y Cabinet~~ sy'n dangos pam y mae o'r farn y byddai'r cynigion o fudd i gymuned Caerdydd a'r genedl ehangach; a
2. ~~bod y Cabinet yn dangos~~ sut y byddai'r cynnig ~~o'r fath~~ yn cadw treftadaeth ddiwylliannol y ddinas trwy ddarparu mesurau diogelu ~~angenrheidiol~~ y byddai allbwn diwylliannol a chlasurol presennol y Neuadd yn cael eu cadw ar y lefelau presennol neu'n fwy, y byddai'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer digwyddiadau cymunedol yn cael ei chynnal, ac na fyddai unrhyw newidiadau neu gynigion strwythurol neu gynigion arfaethedig i gael gwared ar seddi presennol~~;~~, gan nodi bod y cynigion wedi cael eu profi gyda pheirianwyr acwstig gwreiddiol y Neuadd;

Mae'r Cyngor yn nodi y bydd cynigion hefyd yn destun Ymgynghori trwy broses y Gyllideb, gan adeiladu yn eu tro ar ymarferion ymgynghori dro ar ôl tro dros yr 8 mlynedd diwethaf, cyn i'r Cabinet wneud y penderfyniad terfynol ar y mater.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod nodi ffyrdd eraill o ariannu cyhoeddus yn annhebygol, gyda Chyngor y Celfyddydau wedi tynnu ei gyllid refeniw yn ôl ar gyfer Neuadd Dewi Sant yn 2014 a Llywodraeth Cymru yn wynebu pwysau ariannol difrifol, ond mae'n galw ar y Cabinet i ystyried unrhyw ffynonellau eraill o arian cyhoeddus.

3. ~~cynnal ymgynghoriad llawn ac ystyrlon gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol ar rinweddau'r cynigion, a rhoddir ystyriaeth briodol a phriodol i ganlyniad yr ymgynghoriad hwn; a~~
4. ~~chaiff pob llwybr arall i sicrhau'r cyllid sydd ei angen i gynnal yr adeilad a chlirio'r ôl-groniad cynnal a chadw presennol eu harchwilio'n llawn – gan gynnwys gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth ariannol i sicrhau dyfodol ein Neuadd Gyngerdd Genedlaethol dan berchnogaeth a gweithrediad cyhoeddus.~~

Os ~~ar ôl cymryd y camau hyn, mae'r~~ yw'r Cabinet ~~llonydd~~ yn y pen draw yn penderfynu ei bod yn bwriadu bwrw ymlaen â newid perchnogaeth a/neu reolaeth Neuadd Dewi Sant, yna mae'r Cyngor hwn ~~yn galw am gyflawni hynny drwy broses dendro agored a allai sicrhau y gellir ystyried yr opsiwn gorau sydd ar gael, yn amodol ar allu bodloni'r mesurau diogelu priodol.~~ yn nodi y bydd y Cabinet yn cael y

cyngor technegol perthnasol ar y broses i'w dilyn, yn ogystal â gweithdrefn safonol ar gyfer penderfyniadau o'r math hwn.

Yn olaf, mae'r Cyngor yn nodi y bydd penderfyniad y Cabinet yn ddarostyngedig i'r broses graffu fel arfer o dan reolau gweithdrefn graffu'r Cyngor.

**Byddai'r Cynnig Diwygiedig yn darllen fel a ganlyn:**

Mae'r Cyngor hwn yn nodi mai polisi a gadarnhawyd gan y Cyngor ers 2014 yw dilyn trefniadau Darparu Gwasanaethau Amgen ar gyfer Neuadd Dewi Sant, oherwydd pwysau ariannol sy'n deillio o bolisïau llymder y Llywodraeth Glymblaid ar y pryd.

Mae'n nodi ymhellach bod y Cyngor wedi ymgymryd â phroses dendro Deialog Gystadleuol fanwl yn 2016 ar gyfer dull darparu gwasanaethau amgen ar gyfer Neuadd Dewi Sant, ac mae'n nodi'r broses a ddaeth i ben yn aflwyddiannus heb dderbyn unrhyw dendrau a allai ddarparu'r Rhaglen Glasurol a dileu atebolrwydd y Cyngor am yr adeilad.

Mae'r Cyngor yn galw ar y Cabinet i sicrhau, cyn gwneud y penderfyniad hwn, ei fod yn rhoi ystyriaeth briodol i:

1. achos busnes llawn gan y Cabinet sy'n dangos pam y mae o'r farn y byddai'r cynigion o fudd i gymuned Caerdydd a'r genedl ehangach; a

2. bod y Cabinet yn dangos sut y byddai unrhyw gynnig o'r fath yn cadw treftadaeth ddiwylliannol y ddinas trwy ddarparu'r holl fesurau diogelu angenrheidiol y byddai allbwn diwylliannol a chlasurol presennol y Neuadd yn cael eu cadw ar y lefelau presennol neu'n fwy, y byddai'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer digwyddiadau cymunedol yn cael ei chynnal, ac na fyddai unrhyw newidiadau neu gynigion strwythurol neu gynigion arfaethedig i gael gwared ar seddi presennol, gan nodi bod y cynigion wedi cael eu profi gyda pheirianwyr acwstig gwreiddiol y Neuadd;

Mae'r Cyngor yn nodi y bydd cynigion hefyd yn destun Ymgynghori trwy broses y Gyllideb, gan adeiladu yn eu tro ar ymarferion ymgynghori dro ar ôl tro dros yr 8 mlynedd diwethaf, cyn i'r Cabinet wneud y penderfyniad terfynol ar y mater.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod nodi ffyrdd eraill o ariannu cyhoeddus yn annhebygol, gyda Chyngor y Celfyddydau wedi tynnu ei gyllid refeniw yn ôl ar gyfer Neuadd Dewi Sant yn 2014 a Llywodraeth Cymru yn wynebu pwysau ariannol difrifol, ond mae'n galw ar y Cabinet i ystyried unrhyw ffynonellau eraill o arian cyhoeddus.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu yn y pen draw ei bod yn bwriadu bwrw ymlaen â newid perchnogaeth a/neu reolaeth Neuadd Dewi Sant, yna noda'r Cyngor hwn y bydd y Cabinet yn cael y cyngor technegol perthnasol ar y broses i'w dilyn, fel sy’n weithdrefn safonol ar gyfer penderfyniadau o'r math hwn.

Yn olaf, mae'r Cyngor yn nodi y bydd penderfyniad y Cabinet yn amodol i'r broses graffu arferol o dan reolau gweithdrefn graffu'r Cyngor.

Eiliwyd y diwygiad yn ffurfiol gan y Cynghorydd Huw Thomas.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a'r diwygiadau.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Shimmin i ymateb i'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Ymatebodd y Cynghorydd Shimmin i'r materion a godwyd a chadarnhaodd na dderbyniwyd y diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am Bleidlais ar y Diwygiad Cyntaf fel y'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Robson a'i eilio gan y Cynghorydd Joel Williams.

O BLAID
Brown-Reckless, Cowan, Calum Davies, Driscoll, Gibson, Lancaster, Littlechild, Owen, Reid Jones, Robson, Williams

YN ERBYN
Ali Ahmed, Saleh Ahmed, Dilwar Ali, Ash-Edwards, Berman, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Burke-Davies, Carr, Carter, Chowdhury, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Ebrahim, Ferguson-Thorne, Goodway, Green, Gunter, Henshaw, Hopkins, Hunphreys, Hunt, Jenkins, Lloyd-Jones, Jackie Jones, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Latif, Lent, Lewis, Lister, Mackie, Michael, Molik, Moultrie, Naughton, Palmer, Parry, Sangani, Sattar, Shimmin, Simmons, Singh, Stubbs, Huw Thomas, Thomson, Thorne, Waldron, Weaver, Wild, Wong, Wood.

COLLWYD y bleidlais ar y diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar yr Ail Ddiwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Burke-Davies ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Huw Thomas.

O BLAID
Ali Ahmed, Saleh Ahmed, Dilwar Ali, Ash-Edwards, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Burke-Davies, Carr, Chowdhury, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Ebrahim, Ferguson-Thorne, Goodway, Green, Gunter, Henshaw, Hunphreys, Hunt, Jenkins, Lloyd-Jones, Jackie Jones, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Lent, Lewis, Lister, Mackie, Michael, Moultrie, Palmer, Parry, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Huw Thomas, Thomson, Thorne, Weaver, Wild, Wong.

YN ERBYN
Brown-Reckless, Carter, Cowan, Calum Davies, Driscoll, Gibson, Hopkins Lancaster, Latif, Littlechild, Molik, Naughton, Owen, Reid Jones, Robson, Shimmin, Waldron, Williams, Wood.

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Diwygiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Burke-Davies i ymateb cyn i bleidlais gael ei chymryd ar y Cynnig o Sylwedd fel y'i diwygiwyd.

Galwodd yr Arglwydd Faer am Bleidlais ar y Cynnig Terfynol fel y'i diwygiwyd.

O BLAID
Ali Ahmed, Saleh Ahmed, Dilwar Ali, Ash-Edwards, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Burke-Davies, Carr, Chowdhury, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Ebrahim, Ferguson-Thorne, Goodway, Green, Gunter, Henshaw, Hunphreys, Hunt, Jenkins, Lloyd-Jones, Jackie Jones, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Lent, Lewis, Lister, Mackie, Michael, Moultrie, Palmer, Parry, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Huw Thomas, Thomson, Thorne,  Weaver, Wild, Wong.

YN ERBYN
Carter, Hopkins, Kaaba, Latif, Molik, Naughton, Shimmin, Waldron, Wood.

YN YMATAL
Cowan, Calum Davies, Driscoll, Gibson, Lancaster, Littlechild, Owen, Reid-Jones, Robson, Williams.

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd.